AMGUEDDFA ACHREDEDIG

ACCREDITED MUSEUM

Cynllun Achredu Amgueddfeydd ac Orielau yn y Deyrnas Unedig:

Y Safon Achredu

Hydref 2011

Cynnwys

Rhagymadrodd 4

Cymhwysedd 6

Y gofynion 7

1 Iechyd sefydliadol 7

1.1 Datganiad o bwrpas eglur 7

1.2 Cyfansoddiad derbyniol ar gyfer y corff llywodraethu 7

1.3 Trefniadau rheoli priodol 7

1.4 Blaengynllunio effeithiol 8

1.5 Meddiannaeth ddiogel o bob adeilad sy'n cynnwys casgliadau 8

1.6 Prawf o sail ariannol 8

1.7 Gweithlu priodol 8

1.8 Mynediad i gyngor professiynol a mewnbwn i'r broses o ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau 9

1.9 Cynllun argyfwng clir ac ymarferol 9

1.10 Agwedd sefydliadol at gynaliadwyedd amgylcheddol 9

2 Casgliadau 10

2.1 Trefniadau boddhaol ar gyfer perchnogaeth casgliadau 10

2.2 Polisi datblygu 10

2.3 Polisi dogfennaeth 10

2.4 Polisi gofal a chadwraeth 10

2.5 Cynllun dogfennaeth 11

2.6 Cynllun gofal a chadwraeth 11

2.7 Gweithdrefnau dogfennaeth 11

2.8 Asesiad arbenigol a drefniadau diogelwch 11

3 Defnyddwyr a'u profiadau 12

3.1 Darparu a datblygu gwasanaethau o ansawdd da 12

3.2 Profiad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr 12

3.3 Profiadau dysgu effeithiol 13

Gwybodaeth bellach 14

Geirfa 16

Cyflwyniad

Achrediad yw safon y DU ar gyfer amgueddfeydd ac orielau. Mae'n diffinio arferion da ac yn nodi safonau cytunedig, gan annog datblygiad. Mae'n safon ansawdd sylfaenol sy'n helpu i lywio amgueddfeydd i fod cystal ag y gallant, er budd defnyddwyr yn awr ac yn y dyfodol.

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gofynion y mae'n rhaid i amgueddfeydd eu bodloni er mwyn ennill Achrediad. Er bod y safon yn genedlaethol, nid yw'n safon "yr un fath i bawb". Ar gyfer pob gofyniad, mae'r disgwyliadau'n amrywio ar gyfer amgueddfeydd o wahanol fath, maint a chwmpas. Caiff hyn ei egluro yn y ddogfen cyfarwyddyd asesu y dylech ei darllen law yn llaw â'r ddogfen hon.

Amcanion y Cynllun Achredu

1. Annog amgueddfeydd ac orielau i gyflawni'r safonau cytunedig o ran:
   - sut maent yn cael eu rheoli;
   - sut maent yn rheoli eu casgliadau; a
   - phrofiadau defnyddwyr.

2. Annog hyder mewn amgueddfeydd fel sefydliadau sy'n rheoli casgliadau er budd y gymdeithas ac yn rheoli arian cyhoeddus yn briodol.

3. Atgyfnerthu sail foesegol a phroffesiynol gyffredin ar gyfer pob amgueddfa.

Manteision cymryd rhan yn y Cynllun Achredu

Perfformiad
Safon ansawdd sy'n gweithredu fel meincnod awdurdodol ar gyfer asesu perfformiad, gwobrwyo cyrhaeddiad a sbarduno gwelliant.

Proffil
Mae'n codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amgueddfeydd, gan wella hyder a hygrededd o fewn y corff llywodraethu ac ymhlith y cyhoedd.

Pobl
Mae'n helpu amgueddfeydd i ganolbwyntio mwy ar ddiwallu anghenion a diddordebau defnyddwyr a datblygu eu gweithlu.

Partneriaethau
Mae'n helpu amgueddfeydd i archwilio eu gwasanaethau ac yn annog cydweithio mewn sefydliadau a rhyngddynt.

Cynllunio
Mae'n helpu gwaith blaengynllunio trwy ffurfioli gweithdrefnau a pholisïau.

Nawdd
Mae'n dangos bod yr amgueddfa wedi cyflawni safon genedlaethol, sy'n cryfhau ceisiadau am gyllid ac yn rhoi hyder i fuddsoddwyr yn y sefydliad.

Cyflwynwyd y manteision hyn mewn adroddiad a gomisiynwyd yn 2011 gan y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau (MLA) a'r Archifau Gwladol (TNA). Ysgrifennwyd yr adroddiad gan Janice Tullock a Katrina Thomson, ymgynghorwyr, i ddatblygu syniadau ynglŷn â Chynllun Achrediad ar gyfer archifau.

Cymhwysedd

Er mwyn ennill Achrediad, rhaid i amgueddfa:

- fodloni diffiniad Cymdeithas yr Amgueddfeydd o amgueddfa, a gyhoeddwyd ym 1998 (‘Mae amgueddfeydd yn galluogi pobl i archwilio casgliadau i gael ysbrydoliaeth, i ddysgu ac i gael mwynhad. Sefydliadau ydynt sy’n casglu, yn diogelu ac yn cynnig mynediad i weld arteffactau ac enghreifftiau, y maent yn eu dal mewn ymddiriedolaeth ar ran cymdeithas’)

- bod yn cadw casgliadau o arteffactau dros dymor hir

- bod â chyfansoddiad ffurfiol

- darparu dwy flynedd o gyfrifon perthnasol

- sicrhau ei bod yn bodloni’r holl ofynion cyfreithiol, moesegol, diogelwch, cydraddoldeb, amgylcheddol a chynllunio perthnasol

- ymrwymo i flaengynllunio i wella’r gwasanaeth i ddefnyddwyr

Y gofynion

1 Iechyd sefydliadol

‘Mae amgueddfeydd achrededig yn gyfrifol, yn ymatebol ac yn wydn.’

1.1 Datganiad o bwrpas eglur

Rhaid i’r amgueddfa gael ei llywio gan ddatganiad o bwrpas eglur sy’n diffinio pam ac er lles pwy mae’r amgueddfa’n bodoli.

1.2 Cyfansoddiad derbyniol ar gyfer y corff llywodraethu

Rhaid i’r amgueddfa fod yn sefydliad tymor hir sy’n bodoli er lles y cyhoedd ac i ddiogelu casgliadau. Rhaid bod ganddi gyfansoddiad priodol a derbyniol ar gyfer y corff llywodraethu.

1.3 Trefniadau rheoli priodol

Rhaid i’r amgueddfa fod yn sefydliad effeithiol a reolir yn dda ac sy’n gallu darparu tystiolaeth o’r canlynol:

1.3.1 bod ganddi strwythur rheoli boddhaol, o’r corff llywodraethu i’r defnyddiwr

1.3.2 ei bod wedi cymeradwyo’n ffurfiol unrhyw awdurdod neu gyfrifoldeb mae’r corff llywodraethu wedi’u dirprwyo i is-bwyllgorau, aelodau staff neu wirfoddolwyr

1.3.3 bod y strwythur rheoli’n sicrhau bod digon o fewnbwn proffesiynol priodol yn cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau a datblygu polisïau

1.3.4 bod gweithdrefnau olyniaeth yn ddigonol.

1.3.5 ba unigolyn neu sefydliad sydd â’r awdurdod i gymeradwyo dogfennau fel y blaengynllun a pholisïau rheoli casgliadau

1.3.6 unrhyw gytundeb cymeradwy os mai sefydliad ar wahân sy’n rheoli’r amgueddfa

1.4 Blaengynllunio effeithiol

Rhaid i'r amgueddfa gynllunio'n effeithiol ar gyfer llwyddiant tymor hir ac i sicrhau y gall addasu mewn amgylchedd sy'n newid er mwyn goroesi. Rhaid i'w blaengynlluniau cymeradwy gynnwys neu roi sylw i'r canlynol:

1.4.1 ei datganiad o bwrpas eglur
1.4.2 adolygiad o'r blaengynllun blaenorol
1.4.3 dadansoddiad o'r amgylchedd mae'n bodoli ynddo
1.4.4 ymgynghoriad a dadansoddiad o safbwyntiau
1.4.5 ei hamcanion allweddol
1.4.6 yr amcanion penodol sy'n sail i bob amcan allweddol
1.4.7 sut y bydd yn cyflawni ei hamcanion
1.4.8 cynllun adnoddau sy'n dangos y bobl a'r arian sydd ar gael i gyflawni ei hamcanion
1.4.9 dyddiad adolygu'r cynllun

1.5 Meddiannaeth ddiogel o bob adeilad sy'n cynnwys casgliadau

Rhaid i'r telerau meddiannu adeiladau neu safleoedd sydd gan yr amgueddfa fod yn delerau tymor hir (o leiaf 12 mis fel arfer) ac yn ddigonol i gadw'r casgliadau'n ddiogel a chaniatáu blaengynllunio effeithiol.

1.6 Prawf o sail ariannol

Rhaid i'r amgueddfa allu dangos ei bod yn sefydlog yn ariannol a'i bod yn bodloni'r rheoliadau neu'r safonau ariannol perthnasol a gofynion ei chyfansoddiad.

Rhaid bod gan yr amgueddfa ddigon o gyllid, ac ni ddylid defnyddio casgliadau fel gwarant ar gyfer benthyciad.

1.7 Gweithlu priodol

Rhaid bod gan yr amgueddfa weithlu priodol er mwyn gweithredu'n effeithiol. Rhaid bod ganddi weithdrefnau a swyddogaethau cyflogaeth priodol ar waith i gyflawni ei chyfrifoldebau. Rhaid i'r amgueddfa gael:

1.7.1 gweithlu priodol
1.7.2 cytundebau clir ar gyfer pob aelod o'r gweithlu, sy'n egluro ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau
1.7.3 gweithdrefnau ymsefydlu ffurfiol ar gyfer newydd-ddyfodiaid i sicrhau bod gan bob aelod o'r gweithlu wybodaeth sylfaenol am yr amgueddfa, a'i fod yn deall ei swyddogaeth ynddi
1.7.4 cyfleoedd datblygu priodol ar gyfer ei gweithlu

1.8 Mynediad i gyngor professiynol a mewnbwn i'r broses o ddatblygu polisïau a gwneud penderfyniadau

Rhaid i gorff llywodraethu'r amgueddfa allu cael gafael ar gyngor a chyfarwyddyd gan arbenigwr ar amgueddfeydd. Os nad yw'r amgueddfa'n cyflogi arbenigwr, rhaid bod ganddi gytundeb ysgrifenedig gyda mentor amgueddfeydd.

1.9 Cynllun argyfwng clir ac ymarferol

Rhaid i'r amgueddfa allu ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd o argyfwng neu drychineb. Rhaid bod ganddi gynllun argyfwng, sy'n rhoi sylw i bob adeilad sy'n cynnwys casgliadau a gwasanaethau, ac sy'n cynnwys neu'n cyfeirio at y canlynol:

1.9.1 trefniadau ar gyfer y gweithlu, ymwelwyr a chasgliadau

1.9.2 asesiad risg o fygythiadau

1.9.3 gwybodaeth am sut mae'r cynlluniau argyfwng yn cael eu hawdurdodi, eu cynnal, eu cyfathrebu, eu profi a'u cyflwyno i'r gweithlu a'r gwasanaethau brys

1.9.4 tystiolaeth o sut mae'r amgueddfa'n gweithio gyda'r gwasanaethau brys ac unrhyw gynlluniau argyfwng perthnasol eraill

1.9.5 gweithdrefn effeithiol i adolygu'r cynllun argyfwng

1.10 Agwedd sefydliadol at gynaliadwyedd amgylcheddol

Rhaid i'r amgueddfa fod yn ymwybodol o'r amgylchedd. Mae ei dull o leihau gwastraff a lleihau ei heffaith ar yr amgylchedd yn fater i'r corff llywodraethu.

Rhaid i'r amgueddfa gael ei llywio gan ddatganiad polisi ar ei dulliau o ymdrin â chynaliadwyedd amgylcheddol, a rhaid i'r datganiad polisi fod yn briodol i'w datganiad o bwrpas eglur.

2 Casgliadau

‘Mae amgueddfeydd achrededig yn rheoli casgliadau’n effeithiol ac yn sicrhau eu bod nhw a’r wybodaeth a gedwir amdanynt ar gael i bawb.’

Rhaid i gasgliadau mewn amgueddfa gael eu rheoli’n unol â datganiad o bwrpas eglur, polisïau a gweledigaeth strategol yr amgueddfa.

2.1 Trefniadau boddhaol ar gyfer perchnogaeth casgliadau

Rhaid i’r amgueddfa ysgwyddo cyfrifoldeb dros yr holl gasgliadau y mae’n eu rheoli.

Rhaid i’r amgueddfa allu darparu gwybodaeth am faint y casgliadau a chyfran y casgliadau sy’n eiddo i’r amgueddfa ac sydd ar fenthyg iddi. Dylid trafod unrhyw risgiau yn ymwneud â chasgliadau ar fenthyg i’r amgueddfa trwy flaengynlluniau.

Polisïau rheoli casgliadau

2.2 Polisi datblygu

Rhaid bod gan yr amgueddfa bolisi cymeradwy ar gyfer datblygu casgliadau (a elwir hefyd yn bolisi caffael a gwaredu). Rhaid i’r polisi gynnwys:

2.2.1 y datganiad o bwrpas eglur
2.2.2 crynodeb o gasgliadau cyfredol
2.2.3 casglu yn y dyfodol
2.2.4 themâu a blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli a gwaredu
2.2.5 gwybodaeth am y fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gyfer caffael a gwaredu eitemau

2.3 Polisi dogfennaeth

Rhaid i’r amgueddfa gael ei llywio gan ddatganiad polisi dogfennaeth. Gall y datganiad hwn fod yn rhan o bolisi gwybodaeth casgliadau ehangach.

2.4 Polisi gofal a chadwraeth

Rhaid bod gan yr amgueddfa ddatganiad polisi cymeradwy i lywio dulliau’r amgueddfa o ymdrin â gofal a chadwraeth casgliadau.

Cynlluniau rheoli casgliadau

2.5 Cynllun dogfennaeth

Rhaid bod gan yr amgueddfa gynlluniau i wella eu dogfennaeth ar gasgliadau a'u systemau dogfennaeth.

2.6 Cynllun gofal a chadwraeth

Rhaid bod gan yr amgueddfa gynlluniau i helpu i wella gofal a chadwraeth casgliadau yn unol â'r polisi gofal a chadwraeth casgliadau.

Gweithdrefnau rheoli casgliadau

2.7 Gweithdrefnau dogfennaeth

Rhaid i'r gweithdrefnau SPECTRUM sylfaenol fod ar waith ar ffurf llawlyfr gweithdrefnau dogfennaeth, a dylai fod ar gael i'w archwilio ar gais:

2.8 Asesiad arbenigol a drefniadau diogelwch

Rhaid i'r amgueddfa gael cyngor diogelwch arbenigol ar gasgliadau sy'n cael eu cadw a'u harddangos o leiaf bob pum mlynedd, ac yn amlach os bydd angen. Rhaid iddi fynd ati i gynllunio i weithredu ar y cyngor dros amser.

3 Defnyddwyr a'u profiadau

'Mae amgueddfeydd achrededig yn groesawgar ac yn hygyrch. Maent yn arddangos casgliadau ac mae ganddynt gynllun er mwyn nodi a darparu gwasanaeth o safon uchel i amrywiaeth eang o ddefnyddwyr.'

3.1 Darparu a datblygu gwasanaethau o ansawdd da

Rhaid i'r amgueddfa gynnig a datblygu gwasanaethau apelgar o safon uchel i ddefnyddwyr a darpar ddefnyddwyr er mwyn manteisio'n llawn ar ei chasgliadau, ei hadnoddau a'r ardal leol.

Rhaid i'r amgueddfa wneud y canlynol

3.1.1 deall pwy sy'n defnyddio a phwy sydd ddim yn defnyddio'r amgueddfa

3.1.2 gwerthuso a dadansoddi gwybodaeth i asesu anghenion defnyddwyr

3.1.3 cynllunio at y dyfodol i ehangu ei hamrywiaeth o ddefnyddwyr

3.1.4 canolbwyntio ar ofal cwsmeriaid a rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu trin ag urddas a gofal

3.1.5 ystyried anghenion defnyddwyr, yn unol â datganiad polisi sy'n amlinellu ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael mynediad i gasgliadau a gwybodaeth gysylltiedig

3.1.6 ymateb i flaenoriaethau lleol a thwristiaeth lle bo hynny'n briodol

3.2 Profiad sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr

Rhaid i'r amgueddfa ddarparu amgylchedd croesawgar a hygyrch, gyda gwasanaethau a chyfleusterau priodol.

Rhaid i'r amgueddfa:

3.2.1 sicrhau bod ganddi gyfleusterau digonol a hygyrch i ddiwallu anghenion y niferoedd a'r amrywiaeth ddisgwyliedig o ddefnyddwyr neu ddarparu gwybodaeth am leoliad cyfleusterau o'r fath gerllaw

3.2.2 sicrhau bod arwyddion a chyfarwyddiadau priodol y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad

3.2.3 chyfathrebu'n effeithiol â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr trwy amrywiaeth o weithgareddau marchnata a hyrwyddo hygyrch

3.3 Profiadau dysgu effeithiol

Mae dysgu'n ddiben craidd i amgueddfeydd – maent yn defnyddio casgliadau a gwybodaeth gysylltiedig ar gyfer arddangosiadau a chyfleoedd dysgu.

Rhaid i'r amgueddfa:

3.3.1 arddangos y casgliadau trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau dehongli

3.3.2 darparu mynediad i'r casgliadau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion ymchwil a dulliau ymgysylltu eraill

3.3.3 darparu profiadau dysgu a darganfod effeithiol ac ysgogol sy'n canolbwyntio ar y casgliadau

Gwybodaeth bellach

Y Pwyllgor Achredu

Mae'r Cynllun Achredu'n cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Achredu, sy'n cynnwys uwch weithwyr proffesiynol fel aelodau. Mae'r aelodau'n cyfrannu pob math o wybodaeth ac arbenigedd yn ymwneud ag amgueddfeydd o bob math ledled y DU. Mae Paneli Achredu, sef is-grwpiau o'r pwyllgor, yn cyfarfod tua chwe gwaith y flwyddyn i ystyried ceisiadau a chyflwyniadau. Caiff y penderfyniadau hyn eu hadolygu yng nghyfarfodydd blynyddol y Pwyllgor Achredu.

Y sefydliadau asesu

Dyma'r sefydliadau sy'n asesu amgueddfeydd ar gyfer Achrediad.

- **Cymru** CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru (isadran o Lywodraeth Cymru), www.wales.gov.uk/topics/cultureandsport/museumsarchiveslibraries
- **Lloegr, Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel** Arts Council England, www.artscouncil.org.uk
- **Yr Alban** Museums Galleries Scotland, www.museumsgalleriesscotland.org.uk
- **Gogledd Iwerddon** Northern Ireland Museums Council, www.nimc.co.uk
- **Amgueddfeydd Cenedlaethol** Arts Council England, www.artscouncil.org.uk

Mae'r sefydliadau hyn yn asesu cais neu gyflwyniad pob amgueddfa. Mae'r asesiadau'n cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifenyddiaeth Achredu yn Arts Council England, lle maent yn cael eu prosesu a'u hansawdd yn cael ei sicrhau cyn eu cyflwyno i Banel Achredu.

Mae gwybodaeth ychwanegol am Achredu ar gael ar wefan pob sefydliad asesu.

Cadw statws Achrededig

Ar ôl i amgueddfa ennill statws Achrededig, rhaid iddi brofi ei bod yn parhau i fodloni gofynion y cynllun trwy anfon cyflwyniad Achredu i'r sefydliad asesu bob dwy i dair blynedd, yn ôl yr angen.

Newidiadau i'r safon Achredu

Dros amser, gall y gofynion ar gyfer y safon Achredu newid i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â datblygiadau yn y sector ac yn unol ag arferion cyfredol. Pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud, bydd pob amgueddfa Achrededig yn derbyn hysbysiad rhesymol o'r newidiadau cyn y disgwylir iddynt fodloni'r gofynion diwygiedig.

Newidiadau i statws Achrededig

Os bydd amgueddfa'n rhoi'r gorau i fodloni'r gofynion Achredu, gall statws yr amgueddfa gael ei israddio i 'dros dro' neu gall golli ei statws Achrededig yn gyfan gwbl. Panel Achredu fyddai'n gwneud y penderfyniad hwn ar ôl trafod y mater gyda'r amgueddfa a'r sefydliad asesu perthnasol.

Os bydd amgueddfa'n methu darparu ei chyflwyniad Achredu yn unol â'r amserlen a ganiateir, gall golli ei statws Achrededig.

Gall amgueddfa hefyd ofyn am gael ei dileu o'r cynllun Achredu.

Geirfa

Amcanion – y tasgau sy'n sicrhau bod amcanion allweddol yn cael eu cyflawni. Dylent fod yn dasgau CAMPUS – cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol.
Amcanion allweddol – y blaenoriaethau cyffredinol a ddefnyddir gan yr amgueddfa i gyflawni ei datganiad o bwrpas eglur.
Blaengynllun – dogfen sy'n amlinellu nodau ac amcanion manwl sefydliad ar gyfer y dyfodol, i'w cyflawni o fewn cylch cynllunio diffiniedig. Weithiau, fe'i gelwir yn gynllun busnes.
Blaengynllunio – ffordd ystyriol o bennu cyfeiriad strategol ac uchelgais gyffredinol trwy bwyso a mesur a blaenoriaethu gwaith yn unol â datganiad o bwrpas eglur y sefydliad a thrwy ymgynghori â'i randdeiliaid, gan sicrhau bod adnoddau'n cyd-fynd ag amcanion.
Cadwraeth – dulliau gofal neu ymyrraeth mewn perthynas ag eitem gyda'r nod o arafu'r broses ddiraddio ac ymestyn bywyd yr eitem.
Caffael – y broses o gaffael eitem yn gyfreithlon i'w hychwanegu at y casgliad tymor hir.
Casgliad – corff o ddeunydd diwylliannol a threftadaeth. Gall casgliadau fod yn ffisegol, yn anghyffyrddadwy neu'n ddigidol.
Cyfansoddiad – cyfres gyffredinol o egwyddorion sylfaenol ar gyfer llywodraethu sefydliad.
Cymeradwyaeth – yn golygu bod y corff llywodraethu neu awdurdod dirprwyedig wedi gwneud penderfyniad polisi i gefnogi cynnig, a bod y penderfyniad hwnnw wedi'i gadarnhau a'i gofnodi.
Cynaliadwy – gallu'r amgueddfa i oroesi fel sefydliad yn y tymor hir.
Cynaliadwyedd amgylcheddol – sut mae amgueddfa'n defnyddio ei hadnoddau'n gyfrifol i leihau ei heffaith niweidiol ar y byd naturiol.
Cynllun adnoddau – yn nodi a mesur y bobl a'r arian sydd ar gael i gyflawni amcanion yn y blaengynllun cyfredol. Dylai'r cynllun adnoddau gwmpasu'r un blynyddoedd â'r blaengynllun hyd yn oed os mai dim ond ffigurau dangosol yw'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd heblaw'r un gyfredol.
Datganiad o bwrpas eglur – yn diffinio pam ac er lles pwy mae'r amgueddfa'n bodoli. Dylai'r datganiad o bwrpas eglur fod yn eich dogfen lywodraethu.

Defnyddwyr – unigolion a grwpiau sy'n defnyddio adnoddau neu gyfleusterau'r amgueddfa mewn rhyw ffordd.
Dogfennaeth – y cofnodion gwybodaeth am eitemau mewn casgliad
Dulliau dehongli – y ffordd mae syniadau a gwybodaeth am y casgliadau'n cael eu cyfathrebu i ddefnyddwyr.
Dysgu – yn cynnwys dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Gall gynnwys datblygu neu ddyfnhau sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, ymwybyddiaeth, gwerthoedd, syniadau a theimladau, neu wella'r gallu i fyfyrio.
Gwaredu – y broses o ddileu eitem o gasgliad derbyniadau tymor hir yr amgueddfa
Gweithdrefnau – diffinio prosesau safonol. Canllawiau gweithredol ymarferol a elwir hefyd yn llawlyfrau, cyfarwyddiadau ac ati.
Gweithdrefnau olyniaeth – cyfres gytunedig o brosesau i sicrhau cysondeb ac atebolrwydd y busnes trwy newidiadau ymhlith arweinwyr neu aelodau allweddol o'r gweithlu.
Gweithdrefnau ymsefydlu – y broses ffurfiol o roi gwybod i bawb sydd mewn swydd am yr amgueddfa, ei diben a'i blaenoriaethau.
Gweithlu – y bobl gyflogedig a di-dâl sy'n gweithio yn yr amgueddfa.
Gwydnwch – hyfywedd tymor hir sefydliad i oroesi ac addasu mewn amgylchedd sy'n newid.
Hygyrch – yn cynnwys pob math o fynediad – bod ar agor i ymwelwyr, trwy apwyntiad, i grwpiau o ddefnyddwyr penodol, mynediad rhithwir ac ati.
Meddiannaeth – y telerau ffurfiol pan fo sefydliad wedi'i leoli mewn adeilad neu ar safle.
Mentoriaid amgueddfeydd – arbenigwyr sy'n helpu amgueddfeydd bach a reolir gan wirfoddolwyr i gyflawni Achrediad.
Mynediad – fel arfer mewn perthynas â nodi rhwystrau sy'n atal cyfranogiad a datblygu strategaethau i'w dileu. Gall rhwystrau fod yn ffisegol, synhwyraidd, deallusol, ymddygiadol, cymdeithasol, diwylliannol neu ariannol.
Pobl nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio'r amgueddfa – pobl nad ydynt yn defnyddio'r amgueddfa ar hyn o bryd.
Polisïau – dogfennau neu ddatganiadau cymeradwy sy'n darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y sefydliad.
Proffesiynol – yn meddu ar gymhwyster addas a gefnogir gan brofiad perthnasol diweddar.
Rheoli Casgliadau – y dull sefydliadol o gydbwyso'r gwaith o ddatblygu casgliadau, gofal, mynediad a gwybodaeth.
Rhesymoli – y broses o goethi casgliad yn unol â datganiad o bwrpas eglur yr amgueddfa.
Risg – cyfuniad o fygythiad a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd. Risg yw'r posibilrwydd y bydd cam neu weithgarwch a ddewisir (gan gynnwys dewis peidio â gweithredu) yn arwain at golled.

SPECTRUM – safon y diwydiant ar gyfer rheoli casgliadau, diffinio gweithdrefnau cytunedig ar gyfer derbyn gwrthrychau, caffael, rheoli lleoliad a symudiadau, catalogio, gwaredu gwrthrychau, benthyciadau allan a benthyciadau i mewn.
Ymgynghoriad – dulliau ffurfiol neu anffurfiol o gael gwybod beth mae defnyddwyr ac eraill yn ei feddwl, ei eisiau neu ei angen.

Cefnogi partneriaid: